# Perygl - mae pobl yn gweithio yma!


## Damweiniau yn y gwaith

Mae pob gweithle'n gallu bod yn beryglus – yn enwedig os nad yw gweithwyr yn cymryd gofal! Mae damweiniau'n gallu digwydd yn hawdd ac mae'r gweithwyr – a'r cyhoedd – yn gallu cael eu hanafu.

Yn ôl yr Adran Iechyd a Diogelwch, mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu hanafu yn y gwaith oherwydd:

- y ffordd maen nhw'n trin pethau, e.e. cael anaf wrth godi, gwthio neu dynnu pethau, straenio'r corff wrth gario pethau trwm ac ati
- maen nhw'n llithro neu'n baglu, e.e. llithro ar lawr sgleiniog, baglu dros bethau ar y llawr
- maen nhw'n cael eu taro gan wrthrych sy'n symud, e.e. gwrthrychau'n syrthio o silffoedd uchel, rhywun arall yn gwthio troli
- maen nhw'n syrthio, e.e. o ysgol.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y damweiniau sy'n gysylltiedig â'r peryglon uchod ar gyfer y blynyddoedd 2001-2010.




Sylwer: Ymddengys bod cynnydd yn nifer y bobl a syrthiodd rhwng 2007/08 a 2008/09. Mae hyn o ganlyniad i newid yn y ffordd y cafodd y wybodaeth ei chofnodi. O'r cyfnod hwn ymlaen, cafodd llithro neu faglu ar risiau ei gynnwys o dan 'Syrthio' yn hytrach nag o dan 'Llithro neu faglu'.

## Anafiadau

Mae'n ymddangos mai pobl sy'n llithro a baglu sy'n cael yr anafiadau mwyaf difrifol. Yn aml iawn, mae gweithwyr yn torri esgyrn ac felly rhaid iddyn nhw gymryd amser o'r gwaith. Mae'r damweiniau hyn yn costio £512 miliwn i gyflogwyr bob blwyddyn, heb sôn am y £133 miliwn maen nhw'n costio i'r gwasanaeth iechyd bob blwyddyn.  Nid y gweithwyr yn unig sy'n dioddef ychwaith, ond mae aelodau o'r cyhoedd yn llithro neu'n baglu mewn gweithleoedd hefyd.

## Y prif achosion

Mae'r tabl isod yn crynhoi prif achosion baglu a llithro yn y gwaith:

| | | |
|---|---|---|
| Lloriau gwlyb | e.e. | • rheiddiadur yn gollwng dŵr ar y llawr<br>• sinc yn gollwng yn y tŷ bach<br>• rhywun yn gollwng hylif (yn enwedig wrth y peiriant diodydd)<br>• pobl yn dod i mewn i'r adeilad o'r glaw neu'r eira<br>• llawr gwlyb ar ôl i lanhawyr lanhau |
| Lloriau brwnt / budr | e.e. | • rhywbeth wedi ei ollwng ar y llawr, e.e. diod, tomato neu ddarn o giwcymbr ac ati o frechdan |
| Lloriau anaddas | e.e. | • lloriau anwastad<br>• teils rhydd<br>• wyneb llithrig<br>• tyllau yn y llawr<br>• mat anaddas ar y llawr<br>• carped sydd ddim yn ffitio'n iawn |
| Pethau'n cael eu gadael ar y llawr | e.e. | • bagiau, bocsys, ffeiliau |
| Ceblau ar y llawr | e.e. | • ceblau'n croesi'r llawr rhwng y cyfrifiadur a'r soced |
| Diffyg gofal | e.e. | • gweithwyr sydd ddim yn canolbwyntio wrth symud o gwmpas, e.e. siarad ar ffôn symudol wrth iddyn nhw gerdded<br>• gweithwyr yn cario bocsys fel nad ydyn nhw'n gweld peryglon<br>• gweithwyr yn rhuthro o gwmpas fel nad ydyn nhw'n gweld peryglon |
| Golau anaddas | e.e. | • dim digon o olau ar risiau<br>• gormod o olau'n disgyn ar lawr sgleiniog, sy'n gallu "dallu" gweithwyr fel nad ydyn nhw'n gweld peryglon |
| Grisiau | e.e. | • dim digon o olau<br>• dim canllaw i afael ynddo wrth fynd i fyny / i lawr<br>• grisiau anwastad<br>• grisiau o wahanol faint, h.y. rhai'n lletach na'i gilydd, rhai'n uwch na'i gilydd |
| Esgidiau anaddas | e.e. | • esgidiau gyda sodlau uchel<br>• esgidiau sydd ddim yn ffitio'n iawn<br>• esgidiau sydd ddim yn gafael yn y llawr – yn enwedig ar loriau pren |
| Dillad | e.e. | • gwaelod trowsus neu sgert hir yn llusgo ar y llawr<br>• dillad rhydd yn cydio ar gornel desg |

**Beth gallwch chi ei wneud:**

Dylech chi, fel tîm rheoli, wneud arolwg er mwyn gweld ble mae'r risgiau a chymryd camau i wneud y gweithle'n fwy diogel.

Yn aml iawn, mae hyn yn fater syml iawn, e.e.

- Petaech chi'n rhoi mat trwchus, da (sydd ddim yn llithro!) tu mewn i'r brif fynedfa fyddai pobl ddim yn cario dŵr i mewn i'r adeilad ar eu hesgidiau pan fydd hi'n glawio ac felly fyddai'r lloriau ddim yn gwlychu.
- Petai pob gweithiwr yn defnyddio caead plastig dros ei fwg wrth iddo gymryd coffi neu de o'r peiriant, byddai'n llai tebygol o ollwng diod ar y llawr. Byddai hyn yn cadw'r ddiod yn boeth yn ogystal!
- Petaech chi'n sicrhau bod gan bob aelod o staff ddigon o ddroriau a chypyrddau'n agos i'w ddesg – a bod y droriau a drysau'r cypyrddau'n cael eu cau, wrth gwrs – fyddai dim angen rhoi eiddo ar y llawr.
- Petaech chi'n gofyn i'r glanhawyr orffen glanhau cyn i'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gyrraedd, fyddai'r lloriau ddim yn wlyb yn nes ymlaen yn y dydd. Fodd bynnag, os yw'r llawr yn wlyb am unrhyw reswm yn ystod y dydd, rhaid cymryd camau ar unwaith i'w sychu a dylid dangos yr arwydd **Llawr gwlyb** fel bod pobl yn gwybod i'w osgoi.

Yn ogystal, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybodaeth gyson i'r staff am faterion iechyd a diogelwch, e.e. mewn cyfarfodydd staff, drwy gynnal cyrsiau neu drwy ddosbarthu taflenni. Mae'n bwysig bod holl aelodau'r staff yn sylweddoli eu bod nhw'n gyfrifol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, iechyd a diogelwch gweithwyr eraill ac iechyd a diogelwch y cyhoedd.

Yn seiliedig ar wybodaeth ar wefan Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch: http://www.hse.gov.uk/statistics/causinj/kindsofaccident.htm
http://www.hse.gov.uk/
http://www.hse.gov.uk/pubns/welsh/indg225.pdf